



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

AWDURDOD CYLLID CYMRU DOGFEN FFRAMWAITH

Cytundeb rhwng
Llywodraeth Cymru
ac Awdurdod Cyllid Cymru

Mawrth 2018

1.	CYFLWYNIAD.....	3
	Cefndir Awdurdod Cyllid Cymru.....	3
	Egwyddorion	4
2.	ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU	5
	Gweinidogion Cymru.....	5
	Bwrdd ACC	5
	Cadeirydd ACC.....	5
	Prif Weithredwr ACC	6
	Y Berthynas rhwng ACC a Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru	7
	Staff ACC.....	7
	Trysorlys Cymru a Thîm Partner ACC	7
3.	RHEOLAETH ARIANNOL AC ADNODDAU.....	9
	Dyrannu Cyllideb ACC	9
	Adrodd ar Gyllideb ACC	9
	Treth ac arian cysylltiedig: Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru	9
4.	CYFRIFOLDEBAU ADRODD, CYNLLUNIO A CHYFRIFYDDU	10
	Siarter Safonau a Gwerthoedd	10
	Cynllun Corfforaethol.....	10
	Cyfrifon ac Adroddiadau Blynnyddol.....	10
	Rhyddid Gwybodaeth	10
5.	ACC A CHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU	11
	Cwestiynau'r Cynulliad	11
	Gohebiaeth gan aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru	11
6.	RHANNU DATA A GWYBODAETH.....	12
	Gwybodaeth Warchodedig am Drethdalwyr a Deddf Diogelu Data 1998	12
	ATODIAD 1.....	13
	PWERAU A DYLETSWYDDAU PERTHNASOL GWEINIDOGION CYMRU MEWN CYSYLLTIAD AG ACC ...	13
	Bwrdd a Phwyllgorau ACC	13
	Staff ACC.....	13
	Dirprwyo a Chyfarwyddydau	13
	Cyllido a Chynllunio.....	13
	Cyfrifyddu	13
	Gweithredol.....	13

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith hon yn amlinellu telerau cytundeb rhwng Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") a Llywodraeth Cymru i gefnogi perthynas adeiladol a chryf rhyngddynt. Nid yw'n creu rhwymedigaethau cyfreithiol ar y naill barti na'r llall ac mae darpariaethau deddfwriaethol yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ran o'r ddogfen hon. Dylid darllen y ddogfen ar y cyd â dogfennau allweddol eraill, y cyfeirir atynt yn y testun.

1.2 Bydd angen i'r trefniadau partneriaeth polisi trethi sy'n cael eu sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC sicrhau cydweithio di-dor ar nifer o faterion polisi strategol a gweithrediadol, yn seiliedig ar werthoedd ymddiriedaeth a bod yn agored. Bydd y berthynas ynghyd â'r rolau a'r cyfrifoldebau ynghylch materion o'r fath yn esblygu dros amser rhwng y partion wrth i wybodaeth a galluogrwydd ddatblygu drwy brofiad wrth weithredu. Mae'r trefniadau partneriaeth wedi'u cynnwys yn y ddogfen fframwaith hon ochr yn ochr â threfniadau llywodraethu a byddant, gyda'i gilydd, yn helpu i ffurfio perthynas waith gynhyrchol. Fodd bynnag, bydd yn bwysig adolygu'r trefniadau hyn wrth i drethi gael eu datganoli er mwyn sicrhau eu bod yn hwyluso cyfraniadau clir ac effeithiol i'r broses polisi trethi a'i threfniadau llywodraethu. O ganlyniad i hynny, bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu ym mis Ebrill 2019.

1.3 Bydd y ddogfen hon, ynghyd ag unrhyw fersiynau diwygiedig, yn cael eu cyhoeddi ar wefan ACC (www.llyw.cymru/acc). Mae Llywodraeth Cymru ac ACC wedi llofnodi a chytuno ar y ddogfen hon ar 21 Mawrth 2018.

CEFNDIR AWDURDOD CYLLID CYMRU

1.4 Wrth ddatganoli pwerau trethu i Gymru, sefydlwyd ACC yn unol ag arferion gorau rhyngwladol fel adran Anweinidogol lle bo'r staff yn weision sifil, ond lle nad yw Gweinidogion Cymru yn rhan o'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd a lle na allant fod yn rhan o benderfyniadau am faterion trethdalwyr unigol o gwbl. Caiff ACC ei sefydlu drwy adran 2(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Ei swyddogaeth gyffredinol, ac felly ei brif gyfrifoldeb, yw casglu a rheoli'r trethi datganoledig. Caiff darpariaeth fanwl ar gyfer y trethi datganoledig ei gwneud gan Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

1.5 Mae swyddogaethau penodol ACC hefyd wedi'u hamlinellu yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (adran 12 (2)):

(a) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i Weinidogion Cymru;
(b) darparu gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i drethdalwyr datganoledig, eu hasiantiaid a phersonau eraill;
(c) datrys cwynion ac anghydfodau yn ymwneud â threthi datganoledig;
(d) hybu cydymffurfedd â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi datganoledig ac amddiffyn rhag efadu trethi ac osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig.

1.6 Gan ei fod yn gorff corfforaethol, nid yw ACC yn gyfreithiol yn rhan o Lywodraeth Cymru er bod ganddo statws adran Anweinidogol sy'n dangos ei berthynas agos â'r Llywodraeth. Prif rôl ACC yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a bodloni amcanion a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru (ac y cytunwyd arnynt fel rhan o broses Cynllun Corfforaethol ACC), drwy ddefnyddio cyllid y pleidleisiwyd arno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad).

EGWYDDORION

1.7 Mae'r cytundebau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol:

- Bydd ACC a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddarparu cyngor arbenigol a chynhwysfawr o ansawdd uchel i Weinidogion Cymru, yn seiliedig ar y data a'r dadansoddi gorau posibl.
- Bydd ACC a Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â threthi drwy ddatblygu un weledigaeth ar y cyd a blaenoriaethau a fydd yn sylfaen i'w gwaith.
- Bydd ACC a Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth y cyfryngau a chyfathrebu i sicrhau bod negeseuon ynghylch trethi datganoledig yn glir, gan ddatblygu ymddiriedaeth a hyder mewn trethi a'r llywodraeth.

2. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

GWEINIDOGION CYMRU

- 2.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y polisi strategol sy'n ymwneud â'r trethi datganoledig gan gynnwys yr holl ddeddfwriaeth ynghylch y trethi datganoledig (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad), rhagolygon refeniw trethi datganoledig, gosod y bandiau, y trothwyon a'r cyfraddau trethi ynghyd â'r cyfraddau llog.
- 2.2 Mae pwerau a dyletswyddau penodol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag ACC wedi'u hamlinellu yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), ac mae crynodeb ar gael yn Atodiad 1.
- 2.3 Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn gosod cylch gwaith ACC yn flynyddol, yn ogystal â phennu amcanion, blaenoriaethau a chyllideb weithredol a fydd yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol ACC.
- 2.4 Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn cyfarfod â Chadeirydd ACC o leiaf bob chwarter i ystyried cynnydd ACC ac asesu sut mae'r bartneriaeth â Thrysorlys Cymru yn dod yn ei blaen. Bydd hefyd yn cyfarfod â'r Bwrdd llawn o leiaf unwaith y flwyddyn.

BWRDD ACC

- 2.5 Bydd Bwrdd ACC yn arwain ac yn darparu cyfeiriad strategol i'r sefydliad, ac yn ceisio sicrwydd bod ei swyddogaethau statudol yn cael eu cynnal yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd y Bwrdd (drwy'r Cadeirydd) yn cael ei ddwyn i gyfrif gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru am sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt rhwng ACC a Gweinidogion Cymru, fel y dangosir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol, (gellir weld yn yr atodiad i'r Ddogfen Fframwaith) ac fel sy'n cael ei adlewyrchu yng [Nghynllun Corfforaethol ACC](#). Yn benodol, bydd y Bwrdd yn:

- arwain yn effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol;
- cael sicrwydd y cydymffurfir â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, ac yr ystyrir cylch gwaith blynyddol Gweinidogion Cymru ynghyd ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir;
- hyrwyddo safonau uchel cyllid cyhoeddus a rheoli risg;
- cynnal yr egwyddorion o reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian ac Egwyddorion Nolan, a chefnogi'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, i sicrhau bod hyn yn gyson ledled ACC;
- monitro a herio perfformiad y weithrediaeth, ceisio sicrwydd bod nodau, amcanion a thargedau perfformiad ACC yn cael eu bodloni'n llawn.

- 2.6 Mae cylch gorchwyl Bwrdd ACC ar gael yn yr Atodiad i'r Ddogfen Fframwaith.

CADEIRYDD ACC

- 2.7 Mae Cadeirydd Bwrdd ACC:

- yn atebol i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru am sicrhau llywodraethu corfforaethol o ansawdd uchel;
- yn goruchwyllo gweithrediaeth ACC, gan gynnwys perfformiad y Prif Weithredwr;
- yn meddu ar y prif gyfrifoldeb dros arwain Bwrdd ACC i gyflawni ei swyddogaethau yn llwyddiannus.

Mae swydd-ddisgrifiad y Cadeirydd ar gael yn yr Atodiad i'r Ddogfen Fframwaith.

2.8 Yn ôl y drefn arferol, bydd unrhyw gyfathrebu rhwng Bwrdd ACC a Gweinidogion Cymru yn cael ei gynnal drwy'r Cadeirydd. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau eraill y Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath.

PRIF WEITHREDWR ACC

2.9 Mae'r Prif Weithredwr yn uwch was sifil ac yn was y Goron, ac felly mae dyletswydd arno i roi gwasanaeth teyrngar i'r Goron ac mae'n ofynnol iddo gadw at y safonau sydd wedi'u hamlinellu yng Nghod y Gwasanaeth Sifil. Mae'r uwch wasanaeth sifil yn gnewyllyn corfforaethol sydd â'r nod, yn unigol ac ar y cyd, o roi cyfeiriad i'r gwaith o lunio polisiau a darparu gwasanaethau'n effeithiol, o fewn ffiniau adrannol ac ar eu traws. Mae telerau ac amodau gwasanaeth yr uwch wasanaeth sifil yn cael eu gosod gan Swyddfa Cabinet y DU, sy'n gyfrifol am arwain y Gwasanaeth Sifil.

2.10 Mae'r Prif Weithredwr cyntaf wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru, yn gweithredu fel yr awdurdod penodi ar ran y Goron.

2.11 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am redeg ACC o ddydd i ddydd ac am sicrhau bod ei swyddogaethau yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fwrdd ACC ac yn Swyddog Cyfrifyddu ACC. Yn ei rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus ACC;
- cadw cyfrifon priodol;
- gweinyddu darbodus ac economaidd;
- osgoi gwastraff a gorwario;
- defnyddio holl adnoddau ACC yn effeithlon ac yn effeithiol yn unol â'r gofynion a bennwyd gan Weinidogion Cymru a [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#).

2.12 Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad (neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin o bosibl) wahodd y Swyddog Cyfrifyddu i roi tystiolaeth ar adroddiadau archwilio allanol, cyfrifon ac adroddiadau blynyddol ACC mewn Gwrandawriad Pwyllgor.

2.13 Mae'r Bwrdd yn dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif am gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo iddo yn effeithiol, fel yr amlinellir yn rhestr dirprwyaeth fewnol y Bwrdd. Cytunir ar amcanion blynyddol y Prif Weithredwr gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Ysgrifennydd Parhaol (yn seiliedig ar lythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet a thargedau cynllun corfforaethol y Bwrdd). Bydd perthynas rheoli perfformiad y Prif Weithredwr o ddydd i ddydd, gan gynnwys gwerthuso perfformiad, gyda Chadeirydd y Bwrdd. Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn rheolwr llinell ar y Prif Weithredwr fel uwch was sifil; yn cydlofnodi amcanion a gwerthusiadau perfformiad i'r graddau y maent yn ymwneud â rôl y Prif Weithredwr fel uwch was sifil a'r swyddog cyfrifyddu, ac yn rheoli datblygiad y Prif Weithredwr drwy sianeli'r gwasanaeth sifil. Mae'r trefniant hwn yn adlewyrchu perthynas y Prif Weithredwr â Bwrdd ACC a'i statws fel gwas sifil a Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cyllid sy'n cael ei roi i ACC gan Weinidogion Cymru.

2.14 Mae swydd-ddisgrifiad y Prif Weithredwr a Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu ar gael yn yr Atodiad i'r Ddogfen Fframwaith.

2.15 Y Prif Weithredwr hefyd yw'r Prif Swyddog ar gyfer delio ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.16 Fel rhan o'r trefniadau partneriaeth â Llywodraeth Cymru, bydd y Prif Weithredwr yn aelod llawn o Grŵp Cyngori ar Drethi Ysgrifennydd y Cabinet ac unrhyw grwpiau polisi strategol eraill sy'n darparu cyngor strategol i'r Gweinidog ar bolisi trethi a gweinyddu, ac sy'n ystyried yr effaith y gall polisiâu newydd ei chael ar bobl Cymru.

Y BERTHYNAS RHWNG ACC A SWYDDOGION CYFRIFYDDU LLYWODRAETH CYMRU

2.17 Mae Cytundeb Swyddog Cyfrifyddu wedi'i sefydlu rhwng Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ("y Prif Swyddog Cyfrifyddu") a Phrif Weithredwr ACC ("y Swyddog Cyfrifyddu") sy'n amlinellu'r rolau hyn – gweler yr Atodiad i'r Ddogfen Fframwaith.

STAFF ACC

2.18 Gweision sifil yw holl staff cyflogedig ACC ac mae'n ofynnol iddynt gadw at y safonau a amlinellir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil (Cymru). Mae'r cod yn amlinellu'r fframwaith y mae'r holl weision sifil yn gweithio oddi mewn iddo, ynghyd â'r gwerthoedd craidd a'r safonau ymddygiad y mae disgwyl iddynt eu cynnal.

2.19 Mae gan staff ACC ddyletswydd i'r Prif Weithredwr, a thrwy'r Prif Weithredwr i Fwrdd ACC i sicrhau bod ACC yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

TRYSORLYS CYMRU A THÎM PARTNER ACC

2.20 Yr Is-adran Drethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu yn Nhrysorlys Cymru yw prif gyswllt Llywodraeth Cymru ar gyfer ACC ("tîm partner ACC"). Bydd y berthynas bartneriaeth rhyngddynt yn gefnogol ac yn heriol. Bydd y rolau a'r cyfrifoldebau yn esblygu ac yn newid dros amser wrth i bersonél, profiad, arbenigedd a gwybodaeth pob sefydliad newid.

2.21 Bydd tîm partner ACC yn cydlyn cyngor Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog ar gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â darpariaethau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) sy'n ymwneud ag ACC (gweler atodiad 1).

2.22 Bydd swyddogion tîm partner ACC yn cysylltu â swyddogion ACC ynghylch cynllunio corfforaethol i'r dyfodol, perfformiad ariannol a pherfformiad yn erbyn mesurau eraill y cytunwyd arnynt.

2.23 Er mwyn galluogi i dîm partner ACC gyflawni ei rôl, bydd ACC yn:

- gweithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu sy'n ei alluogi i adolygu ei berfformiad ariannol ac anariannol mewn modd amserol ac effeithiol yn erbyn y mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn y cynlluniau corfforaethol a gweithredu;
- rhoi gwybod i dîm partner ACC am unrhyw newidiadau sy'n gwneud y gwaith o gyflawni'r amcanion yn fwy neu'n llai anodd;
- darparu adroddiadau bob chwarter sy'n amlinellu'r cynnydd tuag at gyflawni'r mesurau allweddol yng Nghynllun Corfforaethol ACC.

2.24 Yn fwy cyffredinol, mae ACC a Thrysorlys Cymru yn gyfrifol ar y cyd am stiwardio'r system dreth ddatganoledig. Bydd ACC a thîm partner ACC yn cydweithio drwy gydol y broses polisi, yn llunio partneriaeth fel sail i ddarparu cyngor amserol o ansawdd uchel i'r Gweinidogion a Bwrdd ACC ar faterion sy'n ymwneud â threth neu bolisi gweithredu. Bydd y trefniadau partneriaeth polisi yn seiliedig ar egwyddorion rhannu adnoddau, cyfathrebu clir, rhannu nodau, diwylliannau cytûn a phrosesau cydweithredol.

2.25 Fel rhan o'r trefniadau partneriaeth, gwahoddir Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd ACC.

3. RHEOLAETH ARIANNOL AC ADNODDAU

DYRANNU CYLLIDEB ACC

3.1 Caiff ACC ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn y lle cyntaf, bydd tîm partneriaeth ACC yn trafod y gofynion cyllidebol ag ACC a bydd cynnig yn cael ei gyflwyno yn y Gyllideb a fydd yn cael ei rhoi gerbron y Cynulliad. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar gynigion cyllideb Llywodraeth Cymru i'w cyflwyno i'r Cynulliad, gan gynnwys cyllideb arfaethedig ACC.

3.2 Fel rhan o broses y Gyllideb ddrafft (gan gynnwys Cyllidebau atodol, fel y bo'n briodol) gwahoddir ACC i nodi ei anghenion o ran adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau ac unrhyw gylch gwaith Gweinidogol. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried anghenion ACC o ran adnoddau ochr yn ochr ag anghenion cyrff cyhoeddus a phortffolios eraill. Byddant hefyd yn ystyried sut i ddyrannu adnoddau i sicrhau bod gan ACC ddigon o gyllid i ddiwallu ei rwymedigaethau statudol ac unrhyw ymrwymadau yn y llythyr cylch gwaith blynyddol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw refeniw sy'n ddyledus yn cael ei gasglu.

3.3 Os na ellir dod i gytundeb ar y gyllideb ar gyfer ACC rhwng y partïon, mi fydd hawl i ymresymu. I ddechrau, bydd hyn rhwng y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol. Os nad oes modd dod i gytundeb ar lefel swyddogol, bydd hawl i ymresymu rhwng Cadeirydd ACC a Gweinidogion Cymru. Gwneir pob ymdrech gan y ddau barti i sicrhau bod modd dod i gytundeb. Yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y dyraniadau cyllideb yn y Gyllideb (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth derfynol y Cynulliad ar gynigion cyllideb Llywodraeth Cymru).

3.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud taliadau ariannol misol i ACC yn unol â phroffil gwariant y cytunwyd arno.

ADRODD AR GYLLIDEB ACC

3.5 Mae ACC yn gyfrifol am reoli ei wariant o fewn ei gyllideb gymeradwy sy'n rhan o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad. I gydnabod hyn, bydd ACC yn darparu gwybodaeth reoli reolaidd i dîm partner ACC a fydd yn cynnwys, o leiaf:

- y gwariant gwirioneddol hyd yn hyn;
- rhagolygon gwariant misol a'r sefyllfa alldro diwedd blwyddyn;
- rhagolygon o'r gofynion arian parod.

TRETH AC ARIAN CYSYLLTIEDIG: TALIADAU I GRONFA GYFUNOL CYMRU

3.6 Rhaid i ACC dalu symiau a gasglwyd wrth arfer ei swyddogaethau (treth, cosbau a llog) i Gronfa Gyfunol Cymru, ond caiff wneud hynny ar ôl didynnu alldaliadau drwy ad-dalu trethi datganoledig (gan gynnwys llog ar ad-daliadau o'r fath) a chredydau mewn perthynas â'r trethi datganoledig.

3.7 Mae ACC yn rhan o drefniadau rheoli arian parod cyffredinol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r gofynion hyn, bydd ACC yn darparu gwybodaeth yn unol â gofynion tîm partner Llywodraeth Cymru a'i Chydwasanaethau i reoli sefyllfa Cronfa Gyfunol Cymru yn gyffredinol. Bydd arian wedi'i glirio yn y cyfrif treth yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru yn y modd a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o osod cyfyngiad ar falansau a ddelir gan ACC ar unrhyw adeg.

4. CYFRIFOLDEBAU ADRODD, CYNLLUNIO A CHYFRIFYDDU

SIARTER SAFONAU A GWERTHOEDD

4.1 Yn unol ag adran 26 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), bydd ACC yn paratoi ac yn cyhoeddi Siarter sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad a'r gwerthoedd y mae disgwyl i'w Fwrdd a'i staff gadw atynt wrth ddelio â threthdalwyr, eu hasiantiaid a phersonau eraill; a'r safonau ymddygiad a'r gwerthoedd y mae'n disgwyl i bersonau o'r fath gadw atynt wrth ddelio ag ACC. Bydd ACC yn ymgynghori ar y Siarter, yn ei hadolygu a'i diwygio pan fydd yn ei ystyried yn briodol gwneud hynny. Bydd y Siarter ac unrhyw fersiynau diwygiedig yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad.

CYNLLUN CORFFORAETHOL

4.2 Bydd ACC yn paratoi Cynllun Corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio fel yr amlinellir yn adran 27 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (Rheoliad 4). Rhaid cyflwyno pob cynllun i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo, a bydd y gymeradwyaeth honno'n ddarostyngedig i unrhyw addasiadau fel y cytunwyd arnynt rhwng y Gweinidogion ac ACC. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd ACC yn gosod y cynllun gerbron y Cynulliad, ac yna ei gyhoeddi. Bydd y cynllun cyntaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn dechrau mis Ebrill 2018. Bydd y cynllun tair blynedd dilynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar 31 Mawrth 2019 fan bellaf, a phob tair blynedd wedi hynny. Caiff ACC adolygu a chyflwyno cynllun diwygiedig i'w gymeradwyo ar unrhyw bryd.

CYFRIFON AC ADRODDIADAU BLYNYDDOL

4.3 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, ac yn unol ag adran 28 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), bydd ACC yn llunio adroddiad blynyddol a fydd yn nodi sut y mae wedi gweithredu ei swyddogaethau statudol wrth gasglu a rheoli'r trethi datganoledig yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys amlinelliad o brif weithgarwch ACC, a'i berfformiad yn erbyn amcanion a thargedau y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

4.4 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd ACC yn llunio cyfrifon sy'n nodi'r gwariant wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol, yn ogystal â datganiadau treth sy'n nodi'r refeniw a gasglwyd ar gyfer pob un o'r trethi datganoledig a thaliadau'r refeniw hwnnw i Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid paratoi'r cyfrifon blynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon penodol (gweler yr Atodiad i'r Ddogfen Fframwaith) ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Bydd ACC, neu archwilwyr a bennir ganddo, yn archwilio'r cyfrifon blynyddol a'r datganiadau treth.

4.5 Bydd yr adroddiad blynyddol, y datganiadau treth a'r cyfrifon wedi'u harchwilio yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad ac yna eu cyhoeddi ar wefan ACC ac ar wefannau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Llyfrgell Brydeinig. Bydd copi yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru cyn ei gyhoeddi.

RHYDDID GWYBODAETH

4.6 Bydd ACC yn mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol 2012 (neu fel y'i diwygir) a luniwyd gan Gomisiynydd Gwybodaeth Cymru.

5. ACC A CHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

5.1 Mae ACC, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, yn atebol i'r Cynulliad am ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn effeithlon. Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad (neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin o bosibl) wahodd y Swyddog Cyfrifyddu i roi tystiolaeth ar adroddiadau archwilio allanol, cyfrifon ac adroddiadau blynyddol ACC mewn Gwrandawriad Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd, y Swyddog Cyfrifyddu neu, lle bo hynny'n briodol, aelodau o staff ACC yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar i Bwyllgorau'r Cynulliad pan wahoddir nhw i wneud hynny. Mae gan y Cynulliad y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Bwrdd neu staff ACC fod yn bresennol yng nghyfarfod o bwyllgor y Cynulliad.

CWESTIYNAU'R CYNULLIAD

5.2 Nid yw Gweinidogion Cymru yn atebol drwy Gwestiynau'r Cynulliad am weithrediadau ACC. Os yw Cwestiwn y Cynulliad yn ymwneud â materion gweithrediadol, bydd yr ymateb Gweinidogol yn nodi'r uchod ac yn trefnu i'r Cwestiwn gael ei drosglwyddo i ACC. Fodd bynnag, caiff Cwestiynau'r Cynulliad i Weinidogion Cymru geisio gwybodaeth am faterion y mae gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd benodol yn eu cylch (er enghraifft, penodiadau i Fwrdd ACC, rhoi unrhyw gyfarwyddyd i ACC gan gynnwys llythyrau cylch gwaith a rhagnodi dirprwyon y caiff ACC ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt).

5.3 Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ateb Cwestiynau'r Cynulliad lle ceisir gwybodaeth am faterion lle mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol dros y dreth ddatganoledig, na all Gweinidogion Cymru eu hateb yn llawn heb gymorth ACC. Yn benodol, caiff Cwestiynau'r Cynulliad geisio gwybodaeth ystadegol gan Weinidogion Cymru am gasglu a rheoli trethi datganoledig. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru geisio gwybodaeth gan ACC i'w galluogi i ymateb i gwestiynau o'r fath.

GOHEBIAETH GAN AELODAU O GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

5.4 Pan fo Aelod Cynulliad (AC) yn ceisio gwybodaeth gan ACC ar faterion y mae'n gyfrifol amdano – boed hynny'n uniongyrchol neu mewn Cwestiwn y Cynulliad a drosglwyddwyd i'r Prif Weithredwr gan Weinidogion Cymru – bydd y Prif Weithredwr neu uwch swyddog sy'n gweithredu ar ei ran yn ymateb o fewn yr amserlen y cytunwyd arno (17 diwrnod gwaith).

5.5 Wrth ymateb i ohebiaeth gan ACau, ni fydd ACC dan unrhyw amgylchiadau yn rhoi mynediad at wybodaeth gyfrinachol etholwyr yn ymwneud â threthi oni bai bod yr etholwr wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig penodol i ddarparu'r mynediad hwnnw.

5.6 Bydd trefniadau tebyg yn berthnasol i'r broses o ddelio ag unrhyw gwestiynau gan aelodau o Senedd y DU.

6. RHANNU DATA A GWYBODAETH

- 6.1 Bydd ACC a Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth berthnasol a data dadansoddi yn cael eu cyfnewid yn briodol er mwyn helpu i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â threthiant a threthi datganoledig. Yn yr adran hon, mae "gwybodaeth" yn cynnwys gwybodaeth a gedwir ym mhob cyfrwng, gan gynnwys yn electronig, ac mae'n cynnwys data rhifyddol ac eraill.
- 6.2 Yn unol ag adran 12(2)(a) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), bydd ACC yn rhoi gwybodaeth, cyngor neu gymorth i Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'i swyddogaethau pan fydd yn ofynnol iddo wneud hynny, ym mha bynnag ffurf y bydd y Gweinidogion yn ei benderfynu.
- 6.3 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac yn ddarostyngedig i baragraff 6.6 isod, bydd ACC yn rhoi data dadansoddi perthnasol sydd ganddo am y trethi datganoledig i Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu, monitro a gwerthuso polisïau'r Llywodraeth, a rhagamcanu refeniw trethi datganoledig.
- 6.4 Caiff Gweinidogion Cymru roi gwybodaeth i ACC am gynigion sy'n ymwneud â threthi neu faterion cyllidol eraill, megis cyfraddau a bandiau treth arfaethedig, cyn eu cyhoeddi, er mwyn galluogi i ACC gynllunio a bod yn barod mewn da bryd ar gyfer newidiadau i'r trethi datganoledig. Bydd unrhyw wybodaeth o'r fath a roddir yn gyfrinachol i ACC yn cael ei throsglwyddo i unigolion penodol yn ACC os oes angen iddynt wybod yn unig a bydd yr unigolion hyn yn cadw'r wybodaeth hon yn gwbl gyfrinachol. Bydd unrhyw wybodaeth o'r fath yn cael ei nodi'n glir fel gwybodaeth sensitif heb ei chyhoeddi sy'n ymwneud â threthi neu faterion cyllidol eraill.
- 6.5 Wrth rannu gwybodaeth, bydd y ddau barti yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol ac yn cadw at arferion gorau a chanllawiau perthnasol.

GWYBODAETH WARCHODEDIG AM DRETHDALWYR A DEDDF DIOGELU DATA 1998

- 6.6 Bydd ACC bob amser yn sicrhau ei fod yn cadw gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr yn gyfrinachol yn unol â darpariaethau adrannau 17, 18 a 19 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Ni fydd ACC yn rhoi gwybodaeth warchodedig am drethdalwr i Weinidogion Cymru a fyddai'n golygu y byddai modd adnabod y trethdalwr dan sylw.

PWERAU A DYLETSSWYDDAU PERTHNASOL GWEINIDOGION CYMRU MEWN CYSYLLTIAD AG ACC

BWRDD A PHWYLLGORAU ACC

- Adran 3: pwerau i benodi, cael ymddiswyddiadau a diswyddo'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd ac aelodau anweithredol eraill o Fwrdd ACC
- Adran 3: pŵer i ddiwygio nifer yr aelodau anweithredol o Fwrdd ACC
- Adran 5: dyletswydd i gymeradwyo cynigion am dâl ac ad-dalu costau aelodau anweithredol o fwrdd ACC, aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r is-bwyllgor

STAFF ACC

- Adran 9: pwerau i gymeradwyo telerau penodiad Prif Weithredwyr a staff eraill ACC

DIRPRWYO A CHYFARWYDDYDAU

- Adran 14: pŵer i ragnodi i bwy y caiff ACC ddirprwyo unrhyw swyddogaethau
- Adran 15: pwerau i roi Cyfarwyddydau Cyffredinol i ACC ynghylch arfer ei swyddogaethau a dyletswydd i gyhoeddi (Noder: gallai hyn gynnwys darparu Cylch Gwaith blynyddol i ACC)

CYLLIDO A CHYNLLUNIO

- Adran 23: dyletswydd i roi cyllid i ACC
- Adran 27: dyletswydd i ragnodi cyfnod cynllunio a chymeradwyo cynllun corfforaethol ACC ac unrhyw ddiwygiadau

CYFRIFYDDU

- Adran 29: dyletswydd i roi cyfarwyddydau ar gyfer llunio cyfrifon
- Adran 33: dyletswydd i bennu cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

GWEITHREDOL

- Adran 18: pŵer i ganiatáu datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr
- Adran 163: dyletswydd i osod cyfraddau llog ar daliadau hwyr gan drethdalwyr ac ad-daliadau gan ACC